Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Cefneithin/Gorslas
**Y Caban,**
**Parc Hamdden Crosshands,**
**Ffordd Caerfyrddin.**
**Crosshands,**
**Llanelli**
**Sir Gaerfyrddin**
**SA14 6TD**

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2011**

**gan**

**Wil Williams**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Agorwyd Cylch Meithrin Cefneithin/Gorslas rhyw ddeng mlynedd yn ôl fel rhan o ddarpariaeth Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Sir Gaerfyrddin. Mae'n darparu addysg cyn-ysgol cyfrwng Cymraeg ar gyfer plant Cefneithin, Gorslas, Crosshands a'r ardaloedd o'u cwmpas. Bernir nad yw'r ardal a wasanaethir gan y lleoliad yn ffyniannus nag ychwaith o dan anfantais economaidd a chymdeithasol.

Caiff plant o bob gallu a chefndir eu derbyn i'r lleoliad. Yn ystod yr arolygiad, nid oedd yr un plentyn ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) nag o grŵp ethnig wedi'u cofrestru yn y lleoliad.

Mae'r lleoliad yn darparu sesiynau o dair awr am bum bore'r wythnos ar gyfer plant dwy i bedair oed, er bod y nifer o sesiynau a fynychir gan blant unigol yn amrywio yn ôl dymuniad rheini. Mae 34 o blant wedi'u cofrestru yn lleoliad gyda deuddeg o'r plant tair oed yn cael eu hariannu gan y Bartneriaeth.

Cymraeg yw prif iaith y cartref i oddeutu traean y plant. Prif gyfrwng addysgu a dysgu'r lleoliad yw Cymraeg.

Cefnogir addysg y plant gan arweinydd, dirprwy arweinydd a phedwar ymarferydd. Mae pob un ohonynt gyda chymwysterau priodol ar gyfer addysgu'r blynyddoedd cynnar.

Mae'r lleoliad yn cyfarfod mewn caban pwrpasol ym Marc Hamdden Crosshands. Mae'n cynnwys prif ystafell helaeth, toiledau, cegin a storfeydd. Er nad oes ardal chwarae bwrpasol y tu allan, mae adnoddau sylweddol y parc ar gael i'r plant y rhan fwyaf o'r amser.

Wedi i'r plant orffen eu cyfnod yn y lleoliad, byddant yn parhau gyda'u haddysg yn yr ysgolion cynradd lleol.

Arolygwyd y lleoliad ddiwethaf gan yr Arolygaeth Gofal a Gwasanaeth Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ym mis Tachwedd 2010. Dyma'i arolygiad cyntaf gan Estyn.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

**Perfformiad presennol**

Mae perfformiad cyfredol yn dda oherwydd bod:

- cyflawniadau plant ym mhob maes dysgu yn dda ac yn gwella'n barhaus;
- yr arweinydd yn hyrwyddo a chynnal gwelliannau'n hynod o effeithiol;
- ansawdd y cynllunio a'r profiadau dysgu o safon uchel;
- trefniadau ar gyfer cefnogi iechyd a lles plant yn effeithiol; a bod
- y lleoliad yn rhoi gwerth da am arian.

**Rhagolygon gwella**

Mae rhagolygon gwella'n dda oherwydd bod:

- diwylliant cadarnhaol o hunan-arfarnu yn treiddio drwy holl waith y lleoliad;
- gan arweinwyr ac ymarferwyr ddisgwyliadau uchel o ran datblygu'r lleoliad;
- ymarferwyr yn agored iawn i syniadau newydd ac yn barod i roi cynnig ar wahanol ffyrdd o weithio: a bod
- pwyllgor rheoli effeithiol sy'n ddylanwadol o ran pennu cyfeiriad strategol i waith y lleoliad.

## Argymhellion

Er mwyn gwella ymhellach mae angen i'r lleoliad:

A1 cynnal ac adeiladu ar y safonau da presennol drwy roi ffocws cliriach mewn hunan-arfarniadau ar gyflawniadau plant; a

A2 rhannu canfyddiadau hunan-arfarnu gyda'r pwyllgor rheoli.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw’r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

O ystyried eu hoedran a'u cyfnod datblygu, mae'r holl blant yn gwneud cynnydd da ym mhob maes dysgu o’u man cychwyn yn y lleoliad. Mae’r rhan fwyaf o’r plant yn dangos lefelau uchel o wybodaeth a dealltwriaeth ar draws y meysydd dysgu ac ymdopi’n llwyddiannus â gweithgareddau heriol. Mae bron pob un yn cymhwyso eu medrau'n gadarn iawn mewn ystod o gyd-destunau ac yn datblygu medrau ehangach a rhinweddau personol sydd eu hangen i fanteisio'n llawn ar gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Gwna'r holl blant gynnydd clodwiw wrth ennill medrau yn y Gymraeg gyda lleiafrif ohonynt yn sgwrsio'n rhugl gydag oedolion a phlant eraill. Mae bron pob un yn dyfalbarhau'n ddygn gyda thasgau ac yn ymateb yn hyderus yn ystod gweithgareddau dewis rhydd. Mae canlyniadau holiaduron rhieni yn dangos lefel uchel o foddhad â’r cynnydd mae eu plant yn ei wneud.

**Lles: Da**

Mae pob un plentyn yn dangos lefelau uchel o ddiddordeb a chymhelliant tuag at ddysgu ac yn ymateb yn hyderus i brofiadau dysgu newydd. Mae gan bob plentyn ddealltwriaeth gadarn o sut y gallant ddod yn iach drwy'r hyn maent yn ei fwyta a'r gweithgarwch corfforol maent yn ymgymryd ag ef. Mae gan yr holl blant berthynas glos gydag ymarferwyr ac maent yn ymddiried yn eu harweiniad. Mae pob unigolyn yn teimlo'n ddiogel yn y lleoliad ac yn rhydd oddi wrth gam-drin corfforol neu eiriol. Nodwedd amlwg iawn o'r lleoliad yw'r ymddygiad da a’r gofal a ddangosir gan blant tuag at ei gilydd. Wrth ymwneud â gweithgareddau penodol neu dasgau o'u dewis hwy eu hunain, mae'r rhan fwyaf o'r plant yn cydweithio'n gytûn ac yn arddangos lefelau cynyddol o annibyniaeth. Mae'r holl blant yn mwynhau eu hamser yn y lleoliad.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw’r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Caiff egwyddorion y Cyfnod Sylfaen eu hadlewyrchu'n gryf yn ansawdd y cwricwlwm a ddarperir i blant. Trwy gynllunio manwl, llwydda'r ymarferwyr i ddarparu ystod eang o weithgareddau diddorol ac ysgogol ar gyfer plant ar draws pob maes dysgu. Caiff pob plentyn ei herio gan weithgareddau perthnasol sy'n darparu dilyniant a pharhad yn eu dysgu. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer cyfathrebu, rhifedd, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) a medrau ehangach yn gydlynus ac wedi'i hymgorffori'n gadarn ym mhrofiadau pob un o'r plant. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio'r amgylchedd dan do ynghyd ag adnoddau'r parc sydd ar drothwy'r lleoliad, yn ddychmygus iawn i annog plant i arbrofi â phrofiadau newydd ac i ddatblygu eu medrau yn effeithiol. Caiff profiadau dysgu plant eu cyfoethogi'n sylweddol gan ymweliadau â lleoedd yn y gymuned a chan ymwelwyr achlysurol â'r lleoliad. Caiff

pob plentyn gyfle i gymryd rhan weithredol yn nhrefniadau ailgylchu'r lleoliad. Mae darpariaeth drylwyr iawn ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig. Caiff ymwybyddiaeth plant o draddodiadau a dathliadau diwylliannol Cymru ei ddatblygu mewn modd ystyrlon iawn.

**Addysgu: Da**

Mae gan yr ymarferwyr wybodaeth a dealltwriaeth gadarn o’r Cyfnod Sylfaen ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel ar gyfer dysgu plant. Maent yn darparu profiadau dysgu ysgogol ar draws pob maes dysgu ac yn defnyddio ystod dda o strategaethau dysgu sy’n sicrhau ymglymiad plant o bob gallu ac yn ennyn eu diddordeb. Mae'r ymarferwyr yn llwyddo i gael cydbwysedd da rhwng gweithgareddau sy’n cael eu dewis gan y plentyn a’r rhai sy’n cael eu harwain gan ymarferwyr. Gwneir defnydd dychmygus o amrywiaeth o adnoddau i ddenu diddordeb plant ac i wella dysgu. Mae’r holl ymarferwyr yn fedrus yn eu gwaith ac yn cyfrannu’n sylweddol at ansawdd dysgu plant. Mae'r holl staff yn cadw cofnodion manwl o gynnydd a lles pob plentyn ar draws meysydd dysgu ac yn defnyddio’r wybodaeth hon yn bwrpasol i gynllunio camau nesaf plant yn eu dysgu. Caiff rhieni wybodaeth ddefnyddiol am gyflawniad, lles a datblygiad plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae polisïau a threfniadau effeithiol yn y lleoliad ar gyfer hyrwyddo byw'n iach a lles plant. Caiff plant eu hannog i fwyta'n iach yn ystod byrbrydau, i ofalu am eu hylendid personol ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol. Mae'r profiadau dysgu yn hyrwyddo datblygiad personol plant yn effeithiol, gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol. Mae plant yn hapus a ddiogel yng nghwmni oedolion yn y lleoliad ac maent yn barod i ofyn am gymorth ac arweiniad. Mae'r ymarferwyr yn gwybod sut i ymateb yn briodol i unrhyw heriau mewn perthynas ag ymddygiad gwael a diogelu. Mae'r trefniadau sefydlu effeithiol ynghyd â'r berthynas glos gyda'r rhieni, yn sicrhau bod plant yn ymgynefino'n gyflym yn y lleoliad. Nodir anghenion dysgu plant yn fuan iawn pan fyddant yn ymuno â'r lleoliad a sicrha'r ymarferwyr bod yr anghenion hyn yn cael eu diwallu. Pan gyfyd achosion penodol, mae'r ymarferwyr yn rhagweithiol wrth ofyn am gymorth gan wasanaethau arbenigol. Mae'r lleoliad yn bodloni rheoliadau diogelu yn llawn ac yn sicrhau diogelwch plant bob amser. Mae gan y lleoliad bolisi priodol ac mae ganddo weithdrefnau ar gyfer diogelu.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned gynhwysol lle caiff yr holl blant hawl gyfartal i'r holl feysydd dysgu a'r gweithgareddau ar ddarperir ar eu cyfer. Mae pwyslais cryf ar ddatblygu agweddau goddefgar ac ar sicrhau bod plant ac aelod staff yn rhydd oddi wrth aflonyddwch. Mae gan y lleoliad ddigon o ymarferwyr, sy'n meddu ar wybodaeth ac arbenigedd angenrheidiol i addysgu pob agwedd ar gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Llwydda'r ymarferwyr i greu amgylchedd ysgogol lle y gall pob plentyn fanteisio'n llawn o'i brofiadau dysgu a datblygu gwerthoedd ac agweddau cadarnhaol. Ceir cyflenwad helaeth o adnoddau o ansawdd da ym mhob un o'r meysydd dysgu sy'n cael eu gweddu'n ofalus i ddatblygiad ac anghenion dysgu pob unigolyn. Caiff adnoddau helaeth y parc eu defnyddio'n ddychmygus iawn i gyfoethogi'r cwricwlwm

ac i gefnogi dysgu yn yr ystafell ddosbarth.  Mae adeiladau ar y cyfan, o ansawdd da ac yn cael eu defnyddio'n effeithiol.

| Cwestiwn Allweddol 3: | Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|---|

**Arweinyddiaeth:  Da**

Mae synnwyr cryf o ddiben yr arweinydd yn hyrwyddo a chynnal gwelliannau'n hynod o effeithiol.  Caiff yr addysgu a'r dysgu eu rheoli'n dda, a gweithredir polisïau'r lleoliad yn effeithiol.  Mae disgwyliadau'r arweinydd yn uchel ar gyfer sicrhau ansawdd a herio staff yn gadarnhaol.  Mae'r ymarferwyr yn cydweithio'n agos fel tîm ac yn cyd-rannu gwerthoedd cytûn ynghylch dysgu, ymddygiad a pherthynas.  Gwnânt yn siŵr bod y Cyfnod Sylfaen a blaenoriaethau cenedlaethol eraill, yn cael ei gyflwyno'n llwyddiannus.  Mae'r berthynas gyda phlant, y rhieni a chyda rhai ysgolion cynradd y pentrefi cyfagos yn gadarnhaol ac yn cyfrannu'n arwyddocaol tuag at greu ymdeimlad o gymuned.  Mae'r pwyllgor rheoli yn cyflawni ei gyfrifoldeb yn drylwyr iawn ac yn ddylanwadol o ran cynnal safonau uchel a phennu cyfeiriad strategol i waith y lleoliad.  Fodd bynnag, nid oes trefniadau clir ar gyfer rhannu deilliannau hunan-arfarnu gyda holl aelodau'r pwyllgor.  Mae deilliannau ar gyfer plant yn dda ac yn gwella'n barhaus.

**Gwella ansawdd:  Da**

Mae'r ymarferwyr yn adnabod y lleoliad yn dda a chydag arweiniad pwrpasol yr arweinydd a'r pwyllgor rheoli, yn hunan-arfarnu'n barhaus ac yn archwilio ffyrdd i wella.  Mae trefniadau cadarn wedi'u sefydlu ar gyfer cynnal arfer dda a rhoi newid ar waith mewn meysydd sydd angen gwelliant.  Caiff ymarferwyr eu cefnogi'n sylweddol gan ddatblygiad proffesiynol parhaus o ansawdd da.  Mae pob un yn agored iawn i syniadau newydd ac maent yn barod i roi cynnig ar wahanol ffyrdd o weithio a rhannu eu gwybodaeth gydag eraill yn y lleoliad.  Mae hunan arfarniad yn rhoi ystyriaeth gofalus i farn rhieni ac mae'r ymarferwyr wedi manteisio'n sylweddol ar gyngor proffesiynol athrawes gysylltiol yr ALl.  Gall ymarferwyr ddangos sut maent trwy hunan arfarnu, wedi gwella darpariaeth a safonau cyflawniad a lles plant.

**Gweithio mewn partneriaeth:  Da**

Mae ystod eang o weithgareddau partneriaethau yn cyfrannu'n gryf at gyflawniadau a lles plant.  Mae partneriaeth gynhyrchiol gyda'r rhan fwyaf o ysgolion cynradd yr ardal ac mae cysylltiadau cryf gyda nifer o sefydliadau ac asiantaethau addysg.  Mae ymarferwyr yn cymryd camau gweithredol i gynnwys rhieni yn y lleoliad.  Caiff y rhieni eu hysbysu'n rheolaidd am bob agwedd ar waith y lleoliad ac mae'r arweinydd yn manteisio ar bob cyfle i'w cynnwys yn addysg eu plant.  Mae'r ymarferwyr yn cydweithio gyda'i gilydd yn dda iawn, yn rhannu gwybodaeth am blant ac yn gwybod gyda phwy i gysylltu a phryd, os bydd angen cymorth ychwanegol ar gyfer plant.  Gwneir defnydd mynych ac effeithiol o adnoddau a chysylltiadau cymunedol i gefnogi dysgu plant.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r lleoliad wedi'i staffio'n dda i addysgu cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen a defnyddir staff yn effeithiol i wneud y defnydd gorau posib o'u hamser, eu harbenigedd a'u profiad. Mae gan yr arweinydd a'r pwyllgor rheoli ddealltwriaeth drylwyr iawn o'u cyllideb ac maent yn blaenoriaethu gwariant yn unol ag anghenion datblygu'r lleoliad. Caiff penderfyniadau gwariant eu harfarnu'n hynod o ofalus gan yr arweinydd a'r trysorydd i wneud yn siŵr eu bod yn cael effaith cadarnhaol ar safonau, cynnydd a lles plant. Mae'r lleoliad yn rhoi gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Roedd bron pob un o'r saith holiadur rhieni a dderbyniwyd yn gadarnhaol. Dywed rhieni bod eu plant wedi ymgartrefu'n dda yn y lleoliad a'u bod yn mwynhau'r profiadau dysgu a ddarperir ar eu cyfer. Maent yn dweud bod eu plant yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu a'u bod wedi'u paratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol gynradd. Mae bron pob un rhiant o'r farn eu bod yn cael gwybodaeth gyson am gynnydd eu plentyn a bod y lleoliad yn cael ei redeg yn dda.

**Ymateb i drafodaethau gyda phlant**

Dywed plant eu bod yn hapus yn y lleoliad a'u bod yn hyderus i droi at unrhyw oedolyn i ofyn am gyngor ac arweiniad.

## Atodiad 2

**Yr arolygydd cofnodol**

| | |
|---|---|
| Wil Williams | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)